Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 23/04/2018 7:00yh Ganolfan Llanbedrog

Angela Russell	Iwan Hughes	Thomas Victor Jones	William Penri Jones
Rhodri Ellis Owen	Barbara Warren	William Roger Jones	Rhian Hughes-Jones (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan John Brinley Jones, Greta Hughes, Claire Russell Griffiths, Falmai Squires

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Rhodri Ellis Owen – Cais Cynllunio

3. **Cofnodion Mawrth 2018**
   Wedi eu derbyn yn gywir ac wedi eu arwyddo.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Pentrefi Taclus**
   Diweddariad - Victor Jones
   Roedd pentref Llanbedrog wedi enill gobr pentref gorau yn ol yn 1977

6. **Toiledau**
   Diweddariad gan Victor Jones - Toiledau'r traeth
   Mae John Harris cyn clerc eisoes wedi cysylltu hefo'r ymddiriedolaeth ac wedi cytuno rhannu'r taliad o £4000 i Gyngor Gwynedd sef £2000 yr un.
   Bydd Cyngor Gwynedd yn gyrru anfoneb i'r ymddiriedolaeth.
   Mae'r toiledau ar agor ac yn cael eu gwarchod gan Gyngor Gwynedd o fis Ebrill hyd at fis Hydref.
   Cytunwyd I yrru llythyr I'r ymddiriedolaeth I ddiolch iddynt am eu gwaith yn ddiweddar yn clirio'r traeth yn ddiweddar

7. **Sedd Wag**
   Diweddariad gan Iwan Hughes – Rhodri Ellis Owen wedi derbyn y swydd.
   Croesawu Rhodri I'n plith gan egluro trefniadau a disgwyliadau ei swydd. Bydd Rhodri angen cwblhau datganiad derbyn swydd.

8. **Gwefan y Cyngor**
   Diweddariad gan Iwan Hughes
   Mae Iwan Hughes wedi bod yn gwneud ymholiadau i greu gwefan I Gyngor Cymuned Llanbedrog; Mae'r gost i greu gwefan gydag Arfon Parry, Cradur.com yn £450. Cytunwyd bod hyn yn ddigon rhesymol.
   Mae Greta Hughes am edrych ar beth yw'r manteision ac anfanteision a dod yn ôl at y pwyllgor.
   Ni fydd y B.D.O yn pasio'r awdit heb fod y Cyngor Cymuned gyda gwefan sydd yn addas yw bwrpas.

9. Swydd y Clerc

Diweddariad gan Iwan Hughes

Mae Rhian Hughes-Jones wedi derbyn y swydd. Croesawu Rhian i'r Cyngor Cymuned yn ogystal ag egluro dyletswyddau a disgwyliadau.

10. Cofeb y Milwyr

Diweddariad gan Victor Jones

Mae Cyngor Gwynedd yn codi cofeb er cof am filwyr ar wal y ganolfan yn Llanbedrog. Ni does unman cyhoeddus yn y pentref i gofio ar wahân i'r eglwys a'r capel.

Mae Penri Jones wedi trafod hefo John Harris I ychwanegu un llinell i'r gofeb. Mae Victor Jones am drefnu'r gwaith gyda saer maen. Cytunwyd gwneud penderfyniad ar y llythrennedd a'r lliw gyda'r saer maen.

Mae Victor Jones am ddarparu copi o'r hyn cytunwyd yn cyfarfod mis Mai.

11. Archwiliad Mewnol

Angen trefnu archwiliwr newydd i olynu John Roberts. Mae Rhian Hughes-Jones (Clerc) am roi gwahoddiad ffurfiol i Gyngor Gwynedd i wneud y gwaith archwilio mewnol.

12. Lwfans Cynghorwyr

Angen edrych ar y rheolau i gyd yn ofalus. Nodwyd efallai nad yw'r lwfans yn cael ei dalu os yw'r PRESEPT yn llai na £30,000. Bydd rhaid i bob cynghorydd datgan eu dymuniad yn flynyddol hyd yn oed os nad ydynt am hawlio lwfans.

Rhian Hughes-Jones am edrych i mewn i'r sefyllfa a chreu datganiad.

13. Traethau

Diolch i'r ymddiriedolaeth am y gwaith sydd wedi ei wneud ar y traeth a'r maes parcio yn dilyn y stormydd.

14. Meinciau

Wedi archebu mainc i Mrs Siddaway o Tyddyn Sachau. Mae'r fainc angen ei ailosod gan ei bod wedi malu. Mae John Harris cyn Clerc yn archebu mainc er cof am Beti Thomas, Henllys yw gosod o flaen y Neuadd.

15. Mynwent

Mae Gwyn Williams wedi gwneud archwiliad i gyflwr y cerrig beddi. Mae wedi ffeindio bod 2 garreg bedd yn rhydd ac angen sylw. Yn dilyn hyn bydd angen is-bwyllgor yn y fynwent i archwilio cerrig rhydd a chreu cynllun gweithredu.

Ceisiadau Cynllunio

C17/0557/38/LL

Tir ger, Ffordd y Traeth, Llanbedrog;Ty fforddiadwy - Cefnogol

C17/0053/38/LL

Dolwen, Llanbedrog, Pwllheli, LL537RE; Estyniad - Gwrthwynebu

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 23/04/2018 7:00yh Ganolfan Llanbedrog

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y clerc	
Cyflog 3 mis - John Harris	**£1228.50**
Costau Blynyddol	**£429.37**
Glynen	**£90.00**

Gohebiaeth

1. **Gwyn Williams -** Archwiliad cerrig beddi

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com • 07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd -